**Taflen Ffeithiau am Wasanaethau Synhwyraidd**

Mae’r daflen hon yn rhoi gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael i bobl sydd â nam ar y synhwyrau ac yn byw yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae’r rhain yn cynnwys pobl sydd â nam ar eu golwg, pobl F/fyddar neu’n drwm eu clyw, yn ogystal â phobl sydd â nam ar y golwg a’r clyw (pobl fyddar a dall).

Ein nod yw galluogi pobl sydd â nam ar y synhwyrau i fyw bywyd mor llawn ac annibynnol â phosibl.

Os hoffech gael y wybodaeth hon ar fformat arall – electronig, print bras, Braille neu mewn iaith arall (ee Cymraeg) cysylltwch â’r Pwynt Mynediad Cyffredin drwy ddefnyddio’r manylion a ganlyn:

Ffôn: 01656 642279

E-bost: ContactAssessmentReviewTeam@bridgend.gov.uk

Llythyr: Pwynt Mynediad Cyffredin (Gwasanaethau Synhwyraidd)
Trem y Môr, Ffordd Betws, Betws, Pen-y-bont ar Ogwr CF32 8UN

Neges destun: 07976 322 473, dechreuwch drwy deipio ‘ABC’ ac yna rhowch eich neges

Ffacs: 01656 642300 Ysgrifennwch ‘Cymorth/Atgyfeiriad Synhwyraidd’ fel pennawd y ffacs

**Y Gwasanaethau Synhwyraidd**

Mae’r Gwasanaethau Synhwyraidd yn rhan o Dîm Adnoddau Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr.
Mae amrywiaeth o weithwyr arbenigol yn y tîm gan gynnwys Swyddogion Adsefydlu, Gweithwyr Cymdeithasol a Chynorthwywyr Synhwyraidd.

**Ymholiadau/Atgyfeirio**

Er mwyn i ni fedru’ch helpu chi, byddem yn awgrymu’ch bod yn gwneud y canlynol cyn cysylltu â ni:

Colli’ch clyw:

- Os ydych chi’n cael trafferth â’ch clyw (ac nid ydych wedi cael eich asesu eto i weld a oes angen teclynnau clyw arnoch) dylech gysylltu â’ch meddyg teulu er mwyn delio ag unrhyw gyflwr meddygol posibl, ac i’ch cyfeirio at y Clinig Awdioleg, os bydd angen. Yna, gall y Clinig Awdioleg eich cyfeirio chi’n uniongyrchol atom ni, os bydd angen.

- Os ydych chi’n defnyddio teclynnau clyw, dylech fynd i’r Clinig Awdioleg bob 6 mis i wneud yn siŵr eu bod yn gweithio’n iawn. Ffoniwch 01656 752195 i gael rhagor o wybodaeth. Mae clinig ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Maesteg.

Nam ar y golwg:

- Os ydych chi’n cael trafferth â’ch golwg (ac nid ydych wedi bod i glinig llygaid yn yr ysbyty) dylech gysylltu â’ch optegydd lleol i gael prawf golwg. Yna, gall yr optegydd a/neu’r Clinig Llygaid yn Ysbyty Tywysog Cymru eich cyfeirio’n uniongyrchol atom ni, os bydd angen.

- Os ydych chi wedi cael prawf golwg yn ddiweddar, ond yn cael trafferth darllen a gweld pethau’n glir, mae’n bosibl y cewch Asesiad Golwg Gwan. Mae nifer o ymarferwyr Golwg Gwan yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i’ch helpu chi i wneud y gorau o’ch golwg drwy roi teclynnau

arbenigol i chi **am ddim** e.e. chwyddhadur a lampau arbennig. I gael y rhestr ddiweddaraf o'r Ymarferwyr Golwg Gwan yn eich ardal, ffoniwch 01267 248793 neu ewch i www.eyecarewales.nhs.uk.

Nam ar y golwg a'r clyw (byddar a dall):

- Mae gennym gyfrifoldeb i asesu'r rhai sydd â nam ar y golwg a'r clyw (byddar a dall) yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac i roi'r gofal a'r cymorth priodol iddyn nhw. Dylech drefnu'r profion clyw a golwg uchod cyn cysylltu â ni.

Dylech gysylltu â'r Pwynt Mynediad Cyffredin os oes gennych unrhyw ymholiadau/atgyfeiriadau yn ymwneud ag **oedolion**. Mae'n bosibl mai'r cyfan y bydd ei angen arnoch fydd gwybodaeth briodol neu gyngor neu gymorth i ymdrin â'ch ymholiad cychwynnol ond, os bydd angen i chi gael asesiad arbenigol, bydd hyn yn cael ei gynnal naill ai yn eich cartref a /neu yn ein Canolfan Adnoddau yn Nhrem y Môr.

Dylech gysylltu â'r Tîm Plant Anabl os oes gennych unrhyw ymholiadau/atgyfeiriadau yn ymwneud â **phlant**. Ffoniwch 01656 815442 neu anfonwch e-bost i: DisabledChildrensTeam@bridgend.gov.uk

## Y mathau o gymorth sydd ar gael

Gallwn gynnig gwahanol fathau o wasanaethau gan ddibynnu at sefyllfa'r unigolyn a'r math o nam sydd dan sylw. Gall y rhain gynnwys:

- Gwybodaeth am ardystio a chofrestru
- Gwybodaeth am declynnau arbenigol
- Sgiliau adsefydlu i bobl â nam ar y synhwyrau
- Cymorth i ymdopi â'r effaith emosiynol o ddatblygu nam ar y synhwyrau

## Cofrestr

Mae gennym ddyletswydd i gadw cofrestr o'r rhai yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr sydd â nam ar y synhwyrau. Does dim rhaid i chi gofrestru, ond byddai hynny'n ein helpu ni i ddatblygu a chynllunio gwasanaethau. Gallwn roi gwybodaeth i chi am gofrestru fel person â nam difrifol ar y golwg (dall), nam ar y golwg (rhannol ddall), person Byddar neu drwm eich clyw neu berson byddar a dall. Gallwn hefyd esbonio beth y gallwch ei hawlio mewn perthynas â'r gofrestr.

## Teclynnau arbenigol

Mae amrywiaeth o declynnau arbenigol ar gael i bobl sydd â nam ar y synhwyrau i'w helpu i barhau i fyw'n annibynnol. Bydd rhai teclynnau ar gael fel rhan o'ch asesiad arbenigol neu'ch hyfforddiant adsefydlu. Mae gennym hefyd Ystafell Adnoddau lle mae teclynnau i'w gweld, ynghyd â gwybodaeth a chyngor ynghylch lle y gallwch brynu eitemau arbenigol. Os ydych am ymweld â'r Ystafell Adnoddau, rhaid i chi drefnu apwyntiad.

## Adsefydlu pobl sy'n Colli eu Golwg

Mae ein Swyddogion Adsefydlu wedi cymhwyso i gynnig cyngor, cyfarwyddyd a chymorth o bob math er mwyn i chi fedru parhau i fyw'n annibynnol. Rydym yn rhoi cyngor ynghylch teclynnau golwg gwan, goleuadau, lliwiau cyferbyniol, hyfforddiant byw'n annibynnol, hyfforddiant ar sgiliau cyfathrebu a sgiliau symud.

Er enghraifft, mae'n bosibl eich bod yn cael trafferth darllen, ysgrifennu neu weld i ddweud yr amser, paratoi bwyd, gwneud paned, croesi'r ffordd yn ddiogel neu ddefnyddio technoleg. Gall ein Swyddogion Adsefydlu weithio gyda chi i roi'r sgiliau i chi gyflawni'r math yma o dasgau'n fwy hyderus ac annibynnol.

## Cymorth i ymdopi â'r effaith emosiynol o fod â nam ar y synhwyrau

Mae datblygu nam ar y synhwyrau'n effeithio ar bobl mewn ffyrdd gwahanol ac, fel gweithwyr arbenigol, ein nod yw gweithio gyda chi i'ch helpu chi i addasu i unrhyw newidiadau emosiynol sy'n effeithio arnoch chi.

## Gwybodaeth a chysylltiadau lleol

**Bridge VIS**: Cymdeithas nam ar y golwg Pen-y-bont ar Ogwr (a'r ardal). Cymdeithas leol sy'n helpu pobl O BOB OED sy'n ddall neu'n rhannol ddall neu eu gofalwyr. Mae'r gymdeithas yn trefnu grwpiau cymdeithasol a boreau coffi ar y dydd Gwener cyntaf o bob mis yn Evergreen Hall, Pen-y-bont ar Ogwr am 10am-12pm.

Rhif elusen 1096967

Cadeirydd: Sharon Beatty sbeatty4@sky.com

Trysorydd: Doreen Morgan: 01656-771398

**Canolfan y Deillion Cwm Ogwr**: Mae cyfarfod bob dydd Iau yn Neuadd Les Cwm Ogwr rhwng 2.00pm a 4.00pm
01656 841315

**Grŵp Cymorth y Gymdeithas Facwlaidd:** Mae cyfarfod ar yr ail ddydd Llun o bob mis yng Nghanolfan Iechyd a Lles Maesteg 10.30am – 12.30pm.
Llinell Gymorth y Gymdeithas Fasgwlaidd 0300 3030 111

**Cymdeithas Ryngwladol Glawcoma**:
Llinell Gymorth: 01233 648170

**Grŵp Cymorth Nam ar y Clyw Pen-y-bont ar Ogwr**: Mae cyfarfod ar y dydd Mawrth cyntaf o bob mis yn Evergreen Hall, Pen-y-bont ar Ogwr rhwng 2 a 4pm.
Helen Embling helenandjon1906@hotmail.co.uk

**Dosbarthiadau darllen gwefusau**: Cysylltwch â Chyngor Cymru i Bobl Fyddar.
**LLAIS:** 01443 485687
**FFACS:** 01443 408555
**E-BOST:** mail@wcdeaf.org.uk
**CYFEIRIAD:** Cyngor Cymru i Bobl Fyddar, Glenview House, Courthouse Street, Pontypridd CF37 1JY
**Clwb Pobl Fyddar Pen-y-bont ar Ogwr**: Mae cyfarfod bob dydd Mawrth am 7pm tan yr hwyr a hynny yng Nghlwb Pobl Fyddai Pen-y-bont ar Ogwr, very Tuesday 7pm till late. Meet at Bridgend Deaf Club, Heol Llangrallo, Pen-y-bont ar Ogwr.
Gwefan: bridgend-deaf-club.wix.com/bridgend-deaf-club
SMS: 07468 513 124

**Grŵp Cymorth i Bobl Fyddar a Dall**: bydd pobl sydd â nam ar eu golwg a'u clyw (byddar a dall) yn cwrdd ar y dydd Mawrth cyntaf o'r mis yn Eglwys Nolton, Pen-y-bont ar Ogwr.
Cysylltwch â: Deafblind UK 0800 132320
Neges destun: 07950 008870
E-bost: info@deafblind.org.uk
**Deafblind Cymru**: 0800 132320

**RNIB Sight Loss Advice Service:**

Gallwch siarad â Chynghorydd drwy ffonio llinell gymorth RNIB ar **0303 123 9999**, 8am-8pm o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 9am ac 1 pm ar ddydd Sadwrn.

**Swyddog Cyswllt y Clinig Llygaid (ECLO):** Mae swyddogion ECLO yn rhan o wasanaeth yr RNIB ac maent yn gweithio yn y Clinig Llygaid yn Ysbyty Tywysog Cymru. Gallant roi cymorth a gwybodaeth i oedolion a phlant sydd â nam ar y golwg a hefyd i'r perthnasau a'u gofalwyr.
Sarah Williams: Sarah.Williams@rnib.org.uk 07736 329082

**Casglu batris a thrwsio teclynnau clyw** yn yr Adran Awdioleg Ysbyty Tywsog Cymru 01656 752195

Mae batris ar gael hefyd o Ddesg y Gwirfoddolwyr ym mhrif dderbynfa'r ysbyty o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8am a 4pm

**Cynllun Golwg Gwan Cymru**
Asesiad i weld a oes angen chwyddhaduron a goleuadau penodol arnoch (gwasanaeth am ddim yng Nghymru). I gael rhestr gyfredol o Ymarferwyr Golwg Gwan yn eich ardal:
01267 248793 www.eyecarewales.nhs.uk

**RNIB** www.rnib.org.uk RNIB Cymru 029 2082 8500

**Action on Hearing Loss** www.actiononhearingloss.org.uk
AoHL Cymru 029 2033 3034

**Sense** www.sense.org.uk Sense Cymru 0300 330 9280

**Ymddiriedolaeth Thomas Pocklington** www.pocklington-trust.org.uk

**Care + Repair Managing Better Service** Pen-y-bont ar Ogwr 01656 646755